Ysgol Bro Gwaun

Pennaeth / Headteacher: Mr Paul Edwards

4ydd o Chwefror 2019

Annwyl Riant/Warcheidwad

PRYDAU YSGOL

Mae Cyngor Sir Penfro yn newid ei bolisi prydau ysgol. O ganlyniad, o Fawrth 4ydd 2019, ni fydd Ysgol Bro Gwaun bellach yn gallu derbyn arian parod yn yr ysgol.
Bydd holl lwythwyr arian yn cael eu tynnu a'u cyfnewid am gadarnhawyr gweddill fel bod disgyblion yn gallu gweld eu faint o arian sydd ar ôl.

Mae modd credydu cyfrifon Prydau Ysgol yn y ffyrdd canlynol:

- Trwy wefan CSP www.sir-benfro.gov.uk. Bydd angen i chi gofrestru drwy '**Fy Nghyfrif**' a chreu cyfrinair. Dewiswch 'Fy Ngwasanaethau', gweddill arlwyo heb arian. Rhowch ddyddiad geni a cyfeir-rif Cyfrif eich plentyn, cliciwch **cadarnhau gweddill**. Yna byddwch yn gallu gweld faint o arian sydd yn y cyfrif ac ychwanegu ato os bydd angen trwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin.
- Trwy ddefnyddio Gwasanaeth Talu'n Ddiofyn dros y Ffôn Sir Benfro ar 01437 775164
- Trwy ffonio Canolfan Gysylltu'r Cyngor Sir ar 01437 764551 (9am-5pm Llun-Gwener)
- Trwy ymweld â Chanolfannau Gwasanaethu Cwsmeriaid y Cyngor Sir mewn mannau amrywiol

Sylwch y bydd angen i chi drefnu credydu'r cyfrif heb arian cyn 11pm y noson gynt.

Rydym yn annog Rhieni / Gwarcheidwaid i dalu ar-lein er mwyn cwtogi ar drin arian parod yn yr Ysgol.

Os yw eich plentyn wedi colli'r cerdyn neu os nad ydych yn cofio rhif Cyfrif eich plentyn, cysylltwch â'r Adran Arlwyo trwy cashless.catering@pembrokeshire.gov.uk neu ffonio 01437 775943.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon eraill, cysylltwch â Nia Davies (Cyngor Sir Penfro) trwy nia.davies@pembrokeshire.gov.uk

Gostyngiad Prydau Ysgol

Oes gennych chi dri neu fwy o blant yn unrhyw ysgol yn Sir Benfro?
Os felly, mae gostyngiad 'Teulu' o 50c y plentyn ar gael am bob pryd gan arbed o leiaf £1.50 y dydd i chi! Rhaid i chi fod â thri neu fwy o blant yn mynd i ysgol gynradd neu uwchradd yn Sir Benfro. Cysylltwch â'r swyddfa ar 01437 775943 i gael rhagor o fanylion.

I gael copi o restr brisiau'r ffreutur a rhagor o wybodaeth mewn cysylltiad â'r cynllun gostyngiad teulu, gwelwch www.sir-benfro.gov.uk/prydau-ysgol.

Edrychwn ymlaen at ddarparu pryd maethlon iach i'n cwsmeriaid bob diwrnod ysgol.

Prydau Ysgol am Ddim (FSM)

Mae ein system heb arian yn ei gwneud yn hollol anhysbys i hawlio'ch lwfans pryd ysgol am ddim o £2.50 y dydd o fis Medi 2018 ymlaen. I hawlio'ch lwfans FSM, ewch i www.sir-benfro.gov.uk/prydau-ysgol neu ffoniwch 01437 775943 i gael ffurflen hawlio.

Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT
Rhif ffôn/Tel: 01348 872268 Ffacs/Fax: 01348 872716
E-bost/E-mail: office@ysgolbrogwaun.com

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
CANOLFAN ACHREDEDIG
ACCREDITED CENTRE
The Open University
ITT Programme
Partner School
PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY